

## **Brechlyn Covid-19**

### **Rhybudd Preifatrwydd i'w ddefnyddio ar gyfer brechu staff Cartrefi Gofal, Awdurdod Lleol a Staff y GIG**

#### **Diben y rhybudd**

Mae'r rhybudd hwn yn egluro sut y bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei brosesu'n ystod y sefyllfa benodol hon o amgylch Covid-19 a Strategaeth Profi, Orlhain a Diogelu y Llywodraeth i leihau'r nifer sy'n cael eu heintio. Mae brechu'n ddull sylfaenol i arfer iechyd cyhoeddus ac yn ffurfio rhan o ddull Amddiffyn Strategaeth y Llywodraeth. Bydd y rhybudd hwn yn egluro'n benodol sut yr ydym yn trin eich gwybodaeth ar gyfer y cyfnod brechu. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yma: <https://gov.wales/test-trace-protect-html>

#### **Beth sy'n digwydd nesaf - a oes angen i chi roi caniatâd i'ch gwybodaeth gael ei rhannu?**

Nac oes, ni fydd gofyn am eich caniatâd - bydd y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol, gan gynnwys ei rannu, yn cael ei egluro ar Dudalen 2.

Cysylltir â chi i gael apwyntiad ar safle Bwrdd Iechyd neu efallai y bydd sesiwn galw-heibio leol y gallwch ei mynychu. Bydd y Bwrdd Iechyd angen casglu ychydig o wybodaeth glinigol amdanoch, os nad oes ganddynt y wybodaeth yn barod, megis a ydych wedi cael brechlyn y fflw ac a oes gennych unrhyw alergeddau. Bydd y wybodaeth hon, a'ch bod wedi dewis cael y brechlyn, yn cael ei gofnodi ar eich cofnod meddygol ac ar System Imiwneiddio Cymru (WIS).

Yn dilyn y brechlyn, efallai y bydd eich Meddyg Teulu, Awdurdod Lleol ac/neu adran Iechyd Galwedigaethol eich cyflogwr yn cael gwybod. Bydd hyn yn cynorthwyo gyda'u rhwymedigaeth gyfreithiol i reoli eich iechyd, lles a'ch diogelwch chi ac eraill. Ar gyfer yr un pwrpas, bydd eich Meddyg Teulu, Awdurdod Lleol ac/neu adran Iechyd Galwedigaethol eich cyflogwr hefyd yn cael gwybod os ydych wedi gwrthod y brechlyn.

#### **Pa sefydliadau sy'n gweld, casglu a/neu ddefnyddio eich data personol?**

Yn ddibynnol ar ble rydych yn byw, bydd eich data yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio (a elwir yn prosesu) gan un neu fwy o'r sefydliadau a nodir isod. Mae gan bob sefydliad y statws o 'Reolwr Data ar y Cyd', sy'n golygu eu bod yn gyfrifol mewn cyfraith ar gyfer y data maent yn ei brosesu, sef yn yr achos hwn, eich brechlyn. Mae pob un yn rhan o gytundeb ar draws Cymru sy'n amlinellu sut a pham maent yn prosesu'r wybodaeth honno.

- Eich cyflogwr
- 7 Bwrdd Iechyd Lleol GIG Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Felindre (drwy Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru - NWIS)
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Pa ddata personol sy'n cael ei gasglu a'i ddefnyddio?

I gynorthwyo gyda'r rhaglen frechlyn, bydd eich Bwrdd Iechyd Lleol angen casglu eich data personol. Gall y data a gesglir amdanoch gynnwys:

- Enw llawn
- Dyddiad Geni
- Rhyw
- Dewis iaith
- Rhif GIG (os yw'n hysbys)
- Cyfeiriad llawn gan gynnwys cod post
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad e-bost
- Dull cyfathrebu dewisol
- Anabledd ac ethnigrwydd
- Alergeddau
- Statws brechlyn
- Hanes imiwneiddio

Bydd eich rhif ffôn symudol yn cael ei ddefnyddio i anfon atgoffwyr dros neges destun atoch a bydd eich e-bost yn cael ei ddefnyddio fel ffordd amgen o gysylltu â chi. Bydd ychydig o hyn yn cael ei gyflenwi i dîm brechu'r Bwrdd Iechyd gan eich cyflogwr er mwyn i'r tîm brechu gynnig brechlyn i chi, a bydd ychydig yn cael ei gasglu gan y tîm brechu pan fydd yn siarad gyda chi.

## Am ba mor hir fydd y data'n cael ei gadw?

Bydd gwybodaeth am frechiadau, canlyniadau profion a gwybodaeth parthed unrhyw gyflyrau parhaus perthnasol i Covid-19 yn parhau yn eich cofnod iechyd yn unol ag amserlenni cadw'r GIG.

## A yw'r wybodaeth yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill heblaw am frechiadau?

Gall y wybodaeth a gesglir gan y Bwrdd Iechyd hefyd gael ei defnyddio i:

- Ddeall digwyddiadau a thueddiadau COVID-19 er mwyn rheoli'r risgiau i iechyd cyhoeddus ac atal a rheoli lledaeniad COVID-19
- Nodi a deall gwybodaeth am gleifion neu gleifion posib sydd â COVID-19 neu mewn risg o'i gael
- Darparu gwasanaethau iechyd a lles i ddinasyddion ar draws Cymru
- Sicrhau bod staff ym mhob gweithle yn ddiogel
- Ymchwilio a chynllunio parthed COVID-19 (gan gynnwys cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn treialau clinigol o bosib)
- Monitro cynnydd a datblygiad COVID-19

## Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?

Yn y dechrau, bydd eich cyflogwr yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol canlynol o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) i ddarparu eich manylion i'r Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn iddo gynnig brechlyn i chi:

- Erthygl 6 (1) (c) - Mae angen prosesu er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Iechyd a Diogelwch) y mae'r Rheolwr yn ddarostyngedig iddi (eich cyflogwr)
- Erthygl 6 (1) (f) - Mae angen prosesu at ddibenion y buddion cyfreithlon y mae'r rheolwr neu drydydd parti yn eu dilyn, ac eithrio pan fo buddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol gwrthrych y data sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn enwedig pan mae plentyn yw pwnc

y data. Mae Prawf Diddordebau Cyfreithlon wedi ei ddefnyddio fel rhan o'r Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA) i gadarnhau y defnyddir y sail gyfreithiol hon.

Unwaith y bydd gan y Bwrdd Iechyd y wybodaeth hon, yna'r sail gyfreithiol y bydd yn ei ddefnyddio i brosesu eich data personol ar gyfer pwrpas brechu o dan GDPR yw:

- Erthygl 6 (1) (e) - Tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd gan y rheolwr (y Bwrdd Iechyd)

Ar gyfer data categori arbennig (data iechyd) mae angen sail gyfreithiol ychwanegol ac, yn yr achos hwn, mae dau berthnasol:

- Erthygl 9 (2) (h) - Darparu meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, gofal neu driniaeth iechyd neu gymdeithasol, neu reoli systemau iechyd neu ofal cymdeithasol
- Erthygl 9 (2) (i) - Rhaid bod angen prosesu am resymau er budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd (megis amddiffyn rhag bygythiadau croes-ffin difrifol i iechyd neu sicrhau safonau ansawdd uchel a diogelwch gofal iechyd a chynnyrch meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol)

## **Deddfwriaeth cymwys arall**

Mae nifer o ddarnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n caniatáu a galluogi'r sefydliadau i gasglu eich data a'i ddefnyddio, rhai o'r prif rai yw:

- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd (Rheolaeth Gwybodaeth Cleifion) 2002
- Deddf y Coronafeirws 2020
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020

## **Cysylltiadau Defnyddiol**

Byddwch yn dod o hyd i fanylion am sut mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn mynd i'r afael â'ch holl wybodaeth drwy ymweld â <https://bcuhb.nhs.wales/use-of-site/privacy-policy/>

Os oes gennych bryder neu gŵyn am y ffordd mae eich data'n cael ei drin yna dylech gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn eich Bwrdd Iechyd Lleol i ddechrau. Yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

Swyddfa Llywodraethu Gwybodaeth  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Ysbyty Maelor Wrecsam  
Ffordd Croesnewydd  
Tîm Cymunedol  
LL13 7TD

Ffôn: 03000 858361 E-bost: [BCU.DPO@wales.nhs.uk](mailto:BCU.DPO@wales.nhs.uk)

Fodd bynnag, os nad ydych wedi'ch bodloni, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru  
Ail Lawr, Churchill House,  
Ffordd Churchill  
Caerdydd  
CF10 2HH

Telephone 0330 414 6421

Email: [wales@ico.org.uk](mailto:wales@ico.org.uk)